



**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS WRECSAM**  
**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2017, Canolfan Adnoddau'r**  
**Gwasanaeth Ambiwlans a Thân Wrecsam**

**Yn bresennol:**

**Aelodau Craidd:**

Rob Smith	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cadeirydd
Lindsey Rawlinson	Cyfoeth Naturiol Cymru	Is-Gadeirydd
Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Helen Paterson	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	
Y Cyngorydd Hugh Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru	
Siân Beck	Heddlu Gogledd Cymru	
Angela Tinkler	Iechyd Cyhoeddus Cymru	
Sue Price	Coleg Cambria	
John Gallanders	AVOW	

**Cyfranogwyr Cefnogi:**

Rus Favager	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Helen Odunaiya	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Shan Morris	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Lee Robinson	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Cadeirydd BDP3)
Jon Falcus	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Cadeirydd BDP1)

**Hefyd yn bresennol:**

Becky Lowry	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(eitem 2)
Anna Miller	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(eitem 7)

**Ymddiheuriadau:**

Andy Jones	Gwasanaeth Prawf
Judith McGaw	Gwasanaeth Prawf
Lynda Powell	Prifysgol Glyndŵr

		<b>Cam Gweithredu</b>
<b>1</b>	<b>Croeso a Chyflwyniadau</b>	
	Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Wrecsam a chyflwynodd pawb eu hunain.	
<b>2</b>	<b>Trafodaeth ar thema - Cymunedau yn Gyntaf</b>	

2.1	Roedd Becky Lowry yn bresennol yn y BGC i gyflwyno'r eitem hon. Mae cyllid yn newid yn sylweddol dros y 12 mis nesaf, gyda dim ond 70% o'r cyllid gwreiddiol yn ei le ar gyfer 2017-18 a bydd y rhaglen yn dod i ben erbyn 31.03.2018.	BL / HO
2.2	Mae darparwyr yn gwneud newidiadau trosiannol rŵan. Mae rhai'n gweithredu ar 70% am y flwyddyn gyfan, rhai'n gweithredu ar 100% tan fis Rhagfyr 2017. Mae effaith y newidiadau yn amrywiol, ond gall rhai ymdopi â'r newid lle mae eraill yn cael trafferth i oroesi fel sefydliad gan mai dyma oedd eu prif ffrwd gyllido.	
2.3	Mae'r cyllid yn cynnwys gwaith fel hyfforddiant, darpariaeth chwarae, cefnogi dysgu yn y gymuned, a chefnogi cyflogaeth gymunedol e.e. cyngor ar ddyledion. Yn llynedd, derbyniodd 4,000 o bobl gymorth 1:1 drwy weithgarwch cymunedau yn gyntaf yn Wrecsam.	
2.4	Mae cyfle i Gynghorau fynegi diddordeb mewn bod yn fabwysiadwr ar gyfer gwaith newydd i weithredu "Cymorth Cyflogaeth". Mae Wrecsam wedi mynegi diddordeb.	
2.5	Nododd John Gallanders fod chwarae a hamdden wedi eu nodi fel blaenoriaethau yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ym Mhlas Madoc, ac maent wedi sicrhau cyllid amgen, ond bydd pentrefi trefol eraill yn ei chael yn anodd ar ôl colli cyllid Cymunedau yn Gyntaf.	
2.6	Dywedodd Sioned Rees fod Llywodraeth Cymru yn mynd i ryddhau gwybodaeth ynghylch parthau plant a fydd angen eu hystyried.	
2.7	Amlygodd John Gallanders hefyd y swyddogaeth ehangach sydd gan weithwyr chwarae mewn ardaloedd difreintiedig fel y ffordd i helpu pobl ifanc ar sail 1:1 gydag amrywiaeth o faterion a chyfeirio at wasanaethau priodol mewn modd amserol.	
<p><b>Cam Gweithredu:</b> Bydd y mater hwn yn dychwelyd i'r BGC pan fyddwn yn gwybod mwy am gynlluniau Llywodraeth Cymru unwaith y bydd y trefniadau trosiannol mewn grym ar ôl 31.03.2018, gan y bydd hyn yn cael effaith ar wydnwch ein cymunedau.</p>		
<b>3</b>	<b>Cofnodion y cyfarfod BGC a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2016</b>	
3.1	Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.	HO
	<p><b>Cam Gweithredu:</b> I'w gosod ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.</p>	
<b>4</b>	<b>Bwrdd Darparu Partneriaeth (BDP3) "Mae Wrecsam yn lle sy'n ddiogel, a lle mae pawb yn teimlo eu bod wedi eu cynnwys"</b> <b>Diweddariad ar ganol tref Wrecsam</b>	
4.1	Nododd Siân Beck fod galw cynyddol ar HGC yng nghanol y dref oherwydd nifer cynyddol o ddefnyddwyr Sylweddau Seicoweithredol Newydd (NPS) a chryfder cynyddol NPS rhad. Cyfeiriodd Siân at ddiwrnod yr wythnos diwethaf gydag 11 achos, ac un a oedd bron a bod yn farwolaeth.	
4.2	Mae Iechyd Meddwl yn fater o bwys i nifer o ddefnyddwyr NPS sy'n gohort amlwg a diamddiffyn. Mae'n ymddangos fod y mater hwn yn unigryw i Wrecsam, o ran bod hyn yn digwydd yng nghanol y dref mewn ffordd mor amlwg.	
4.3	Fel partneriaid rydym wedi cyflwyno Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus i helpu rheoli'r sefyllfa ond yn cydnabod na fydd gorfodaeth yn datrys y mater hwn. Mae'r niferoedd sydd wedi ymgysylltu â gwasanaethau fel hyn yn dangos canlyniadau positif. Mae Op Glaretram wedi canolbwyntio ar fannau problemus (yr orsaf fysiau yn arbennig) ond nid yw hyn yn gynaliadwy i HGC ac yn defnyddio llawer o adnoddau. Heddiw (30.03.17) yw'r "diwrnod ymyrraeth" cyntaf i gael gwell dealltwriaeth gan ddefnyddwyr NSP a'u hannog i ymgysylltu â phartneriaid.	

4.4	Heddiw hyd yma, cafodd 30 defnyddiwr gefnogaeth gynhwysfawr. Cynhaliwyd cyfarfod argyfwng gyda phartneriaid ar 27.03.17. Mae gallu ac adnoddau yn broblem wirioneddol.	
4.5	Mae'r galw'n bennaf gan ddynion sy'n oedolion, mae nifer yn ddiartref ond gall hyn newid yn gyflym. Mae NPS yn dod â chymunedau o ddefnyddwyr at ei gilydd. Dylid nodi nad yw'n anghyfreithlon i'w ddefnyddio na bod ag o yn eich meddiant. Mae rhai NPS e.e. Spice wedi cael statws dosbarth B ond mae costau dadansoddi yn uchel.	
4.6	Mae addysg ac ataliaeth yn parhau, mae'n ymddangos fod y sylw diweddar yn y cyfryngau yn rhwystro eraill rhag rhoi cynnig ar NPS. Mae'r driniaeth yn canolbwyntio ar ddiogelu. Rydym yn cydnabod yr angen i edrych ar arfer gorau, ond mae llawer o'r galw hwn yn newydd ac heb ei ymchwilio ar draws y DU. Mae Manceinion yn wynebu problemau cyffelyb ac yn nodi troseddau eraill gan bobl sydd dan ei ddylanwad. Nid yw hyn, hyd yma, yn broblem yn Wrecsam.	SB / SS
4.7	Holodd Simon Smith a oedd unrhyw eiddo mewn perygl (drwy NPS) y mae angen i'r Gwasanaeth Tân ac Achub fod yn ymwybodol ohono. Byddwn HGC yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Gwasanaeth Tân.	SB / LRo
4.8	Gallai'r mater hwn roi pwysau pellach ar y gallu presennol i ddadwenwyno. Cytunwyd fod hwn yn fater partneriaeth, mae angen i HGC roi eglurhad o ran pa bartneriaid eraill sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith sy'n mynd yn ei flaen, gan gynnwys y swyddogaeth i Lywodraeth Cymru i rannu'r hyn a ddysgir.	
4.9	Cydnabuwyd, er nad yw hyn yn adlewyrchu ar gynllun Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, mae'n amlwg yn fater lleol yn Wrecsam.	LRO
	<b>Cam Gweithredu:</b> Bydd BDP3 yn parhau i reoli'r gwaith hwn a bydd y BGC yn cael eu hysbysu.	
<b>5</b>	<b>Diweddariad BDP1 – Diweddariad ar brosiect 1000 diwrnod cyntaf Wrecsam a diweddariad ar Cael Wrecsam i Symud</b>	
5.1	<b>Prosiect Y 1000 diwrnod cyntaf:</b> Wrecsam a Thorfaen yw'r ddwy ardal beilot yng Nghymru ar gyfer y gwaith hwn. Cydnabuwyd fod llawer o waith yn digwydd ond mae angen i ni gydweithio ac integreiddio'n well. Nododd Siân Beck fod cais Trawsnewid Heddlu Cymru Gyfan yn cael ei dynnu ynghyd ar sut i ddefnyddio'r theori Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i gefnogi heddlu yng Nghymru. Os yw'n llwyddiannus, gall hyn gefnogi'r prosiect.	
	<b>Cam Gweithredu:</b> BDP1 i oruchwyllo'r prosiect hwn ac Angela Tinkler i gynnal proffil gyda'r BDP.	AT
5.2	<b>Prosiect Cael Gogledd Cymru i Symud:</b> Bydd ail weithdy partneriaeth yn cael ei gynnal yr wythnos nesaf. Mae angen ystyried perchnogaeth o amgylch llywodraethu'r prosiect. Cydnabu'r BGC fod hwn yn fater lleol a chenedlaethol sydd angen ei symud ymlaen. Rhoddodd partneriaid esiamplau o waith yn eu sefydliadau eu hunain sy'n cefnogi'r rhaglen hon, a chytunodd y BGC fod hwn yn fan cychwyn da. Holodd y Cynghorydd Hugh Jones a oedd AHNE wedi eu cynnwys, bydd Angela Tinkler yn edrych i weld. Bydd argymhellion yn cael eu llunio'n ddiweddarach eleni.	AT AT
	<b>Camau Gweithredu:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflwyniad byr ar gyfer BGC yn y dyfodol i ddarganfod mwy a chytuno ar drefniadau llywodraethu.</li> <li>Mae'r argymhellion canlynol yn cael eu gwneud, AT i ddod a hyn yn ôl i'r</li> </ul>	AT AT / HO

<b>5.3</b>	BGC yn ddiweddarach eleni.  <b>BDP1:</b> Mae Jon Falcus fel cadeirydd newydd BDP1 yn dymuno adolygu'r Bwrdd a threfniadau llywodraethu'r bwrdd. Yn dibynnu ar y blaenoriaethau a fydd yn amlygu eu hunain yn y cynllun lles, awgrymwyd y gallai gofal heb ei drefnu fod yn faes gwaith ar gyfer BDP1.  <b>Cam Gweithredu:</b> Adrodd yn ôl i'r BGC yn y cyfarfod nesaf ar lywodraethu a blaenoriaethau a awgrymwyd ar gyfer 2017 / 18.	JF
<b>6</b>	<b>Cymeradwyo asesiad Lles Wrecsam</b>	
6.1	Cytunwyd ar yr asesiad lles ar gyfer Wrecsam. <b>Cam Gweithredu:</b> Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y BGC ar ôl cael ei gyfieithu	HO
<b>7</b>	<b>Crynodeb ar ymgynghori</b>	
7.1	Amlinellodd Anna Miller gynlluniau ar gyfer camau 3 a 4 y cynllun ymgynghori i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cynllun lles.  <b>Cam Gweithredu:</b> Aelodau'r BGC i sicrhau fod eu sefydliad yn cael ei gynrychioli yng nghyfarfod cynllunio'r ymgynghoriad ar 2 Mai 2017.	Pawb
<b>8</b>	<b>Amserlen arfaethedig y Cynllun Lles</b>	
8.1	Amlinellodd Helen Odunaiya'r cynlluniau i ddatblygu cynllun lles BGC Wrecsam. Nodwyd y bydd goblygiadau o ran adnoddau i bartneriaid y BGC sydd â chylch gwaith isranbarthol, rhanbarthol neu genedlaethol gan fod disgwyl iddynt gyflawni hyn gan BGC eraill hefyd.  <b>Camau Gweithredu:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Aelodau'r BGC i sicrhau fod eu sefydliad yn cael ei gynrychioli yng nghyfarfod cynllunio'r ymgynghoriad ar 2 Mai 2017.</li> <li>Aelodau'r BGC i roi gwybod i HO am unrhyw ddyddiadau penodol ar ôl mis Rhagfyr 2017 y bydd yn ofynnol i gwblhau'r asesiad lles, er mwyn cael cymeradwyaeth ffurfiol gan eu sefydliadau.</li> </ul>	Pawb Pawb
<b>9</b>	<b>Blaenoriaethau Dros Dro 2017 /18</b>	
9.1	Mae'r BGC yn cytuno y byddai'r "gwaith un contract" a nodwyd yn y gweithdy yn brosiect dros dro cadarnhaol. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei ddatblygu rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a BIPBC ar sut y gallant gydweithio orau a bydd hyn yn cefnogi ei waith. Cytunwyd i gwmpasu'r gwaith hwn i ddechrau.  <b>Cam Gweithredu:</b> Y Gwasanaeth Tân a BIPBC i weithio gyda BDP1 i gwmpasu'r gwaith hwn ac adrodd yn ôl i'r BGC.	JF / SS
<b>10</b>	<b>Diwygio Llywodraeth Leol: Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Cadernid ac Adnewyddiad</b>	
10.1	Amlygodd Helen Paterson fod rhai problemau gyda'r papur gwyn sydd ar hyn o bryd wedi ei gylchredeg ar gyfer ymgynghoriad a bydd y BGC yn dymuno gwneud sylwadau arno ynghylch swyddogaeth BDP ar draws Cymru yn y dyfodol.  <b>Cam Gweithredu:</b> Aelodau'r BGC i fwydo eu sylwadau i HO, bydd ymateb drafft yn cael ei	Pob Un

	gylchredeg, a fydd yn cael ei gymeradwyo gan Gadeirydd y BGC a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.	HO / RS
<b>11</b>	<b>Cyllid y BGC</b>	
11.1	Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei fod yn darparu cyllid ar gyfer 2017 / 18 ar sail ranbarthol i gefnogi gwaith y BGC.	
11.2	Cadarnhaodd Lyndsey Rawlinson y gall Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu £5,000 i gefnogi BGC Wrecsam y flwyddyn nesaf. [Nodwch yn dilyn cyfarfod y BGC, mae LR wedi cadarnhau y bydd rhaid defnyddio'r arian hwn ar gyfer prosiectau sy'n cyflawni'r amcanion lles cyffredinol a hefyd yn cwrdd ag amcanion lles CNC ei hun.]	LR
11.3	Cadarnhaodd Rob Smith a Rus Favarger y gallai BIPBC ddarparu £5,000 i gefnogi'r BGC ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.	RS / RF
11.4	Cadarnhaodd partneriaid eraill na allent ddarparu cymorth ariannol gan y gallai hyn osod cynsail ar gyfer BGC eraill. Gallai dewis amgen o gyfrannu at yr arian rhanbarthol fod yn ystyriaeth i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.	
<b>12</b>	<b>Unrhyw Fater Arall</b>	
	Dim	

**Dyddiadau Cyfarfodydd i ddod:**

01.06.17	2pm tan 4pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwylans Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam. LL13 7YU
07.09.17	2pm i 4pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwylans Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam. LL13 7YU
07.12.17	2am tan 4pm	Canolfan Adnoddau Gwasanaeth Tân ac Ambiwylans Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam. LL13 7YU